

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Vale Laser Clinic Ltd, Sain Tathan

Dyddiad yr arolygiad: 7 Mawrth
2018

Dyddiad cyhoeddi: 8 Mehefin
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
4.	Beth nesaf?	18
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	19
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	21

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle roddir rhybudd o Vale Laser Clinic Ltd ar 7 Mawrth 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer ei gleifion.

Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Darparwyd gwybodaeth fanwl i gleifion i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd yr adeilad yn lân ac yn daclus
- Roedd dogfennau ar gael i ddangos bod gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw'r peiriannau laser a golau pwls dwys yn cael ei wneud yn rheolaidd
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd angen diweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben
- Mae'n ofynnol i'r holl staff fynychu hyfforddiant ar ddiogelu oedolion
- Dylid cyflwyno rhaglen reolaidd o archwiliadau.

Gwnaethom nodi toriadau rheoleiddiol yn ystod yr arolygiad hwn o ran yr angen i ddiweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiaid â rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Vale Laser Clinic Ltd wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol gan ei fod yn darparu triniaethau drwy ddefnyddio technoleg golau pwls dwys a thriniaethau laser Dosbarth 3B/4 yn 1A The Square, Sain Tathan, Y Barri CF62 4PF.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru am y tro cyntaf ar 5 Awst 2015.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig ac un gweithredwr laser o dan hyfforddiant.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau ar gyfer cleifion dros 18 oed gan ddefnyddio'r canlynol:

Laser Q Plus C Nd:YAG a Ruby

- Gwaredu tatŵs
- Pigmentiadau

LUMINA IPL a Laser

- Pigmentiadau
- Acne
- Gwaredu gwallt
- Adfywio'r croen
- Gwaredu gwythiennau coch
- Heintiau ffwngaid ar yr ewinedd.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Canfuom fod y staff yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Darparwyd gwybodaeth fanwl i gleifion i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod triniaethau.

Roedd angen diweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 19 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Gwasanaeth rhyfeddol a chyfeillgar iawn, rwyf mor hapus fy mod wedi dod o hyd i'r lle hwn, rwyf yn ei argymhell yn fawr i unrhyw un."

"Dim ond dwy driniaeth rwyf wedi'u cael hyd yn hyn, ond mae popeth wedi bod y tu hwnt i'm disgwyliadau. Gwasanaeth rhagorol."

"Mae'r gwasanaeth rwyf wedi'i gael wedi bod yn rhyfeddol. Gwnes i chwilio am dros chwe mis i'r holl gwmnïau gwahanol ac roedd yr adborth ges i ar gyfer Vale Laser Clinic yn rhyfeddol. Byddwn i'n ei argymhell i bawb."

"Rwyf wrth fy modd â'm triniaeth ac mae proffesiynoldeb y staff yn ardderchog. Rwyf yn ymddiried yn eu cyngor ac rwyf yn gyffrous am driniaethau yn y dyfodol."

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y gofynnwyd i gleifion lenwi ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol a oedd yn cael ei gwirio ar gyfer newidiadau ymhob apwyntiad dilynol er mwyn sicrhau bod triniaeth yn cael ei darparu mewn modd diogel. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wella dulliau cofnodi gwiriadau a wnaed o hanes meddygol cleifion drwy sicrhau bod yr holl flychau'n cael eu ticio gan y claf, nid yn unig yn cael eu llofnodi ar waelod y ffurflen.

Urddas a pharch

Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais, yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal a thriniaeth. Dywedwyd wrthym fod y drws yn cael ei gloi yn ystod triniaeth; darperir tywelion urddas i gleifion yn ôl y galw ac mae cleifion yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain i ddadwisgo os oes angen. Gwnaed hyn er mwyn cynnal urddas cleifion, cyn y driniaeth, yn ystod y driniaeth ac ar ôl y driniaeth.

Roedd ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal yn yr ystafelloedd triniaeth, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol yn gallu cael ei thrafod heb i neb ei chlywed.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Gwnaethom ganfod bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion iddynt wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth. Roedd hyn oherwydd bod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb â'r rheolwr cofrestredig cyn i driniaeth ddechrau. Roedd y drafodaeth hon yn cynnwys y risgiau, y buddion a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir. Rhoddwyd taflen wybodaeth hefyd i gleifion yn dilyn yr ymgynghoriad a oedd yn cynnwys y risgiau a'r buddion. Gwnaeth y cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd gytuno eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys y risgiau, y gwahanol opsiynau triniaeth a oedd ar gael, costau'r gwasanaethau a'r gwasanaethau gofal ôl-driniaeth.

Roedd gwybodaeth fanwl ynghylch triniaethau hefyd ar gael ar wefan y gwasanaeth i helpu cleifion i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu gofal.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen cyn i driniaeth ddechrau ac yn derbyn cyngor ôl-ofal ar ôl y driniaeth.

Gwelsom fod cydsyniad i driniaeth yn cael ei gasglu oddi wrth gleifion ym mhob apwyntiad.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd canllaw i gleifion ar gael a gwnaethom ganfod bod angen ei ddiweddarau i sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae angen i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn cynnwys mwy o wybodaeth am weithdrefn gwyno'r gwasanaeth, crynodeb o safbwyntiau'r cleifion a diweddarau manylion cyswllt e-bost ar gyfer AGIC.

Roedd datganiad o ddiben ar gael a gwnaethom ganfod bod angen diweddarau hwnnw hefyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnwys gwybodaeth am yr holl staff sy'n defnyddio'r offer laser a/neu golau pwls dwys (gan gynnwys gweithredwyr laser o dan hyfforddiant) a diweddarau cyfeiriad e-bost cyswllt AGIC o dan y weithdrefn gwyno.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau a darparu copïau i AGIC.

Cynllunio a darparu gofal

Canfuom fod yr holl gleifion yn derbyn apwyntiad ymgynghori cyn dechrau ar driniaeth, a oedd yn cynnwys asesiad math o groen. Gwelsom fod canlyniad yr asesiad hwn yn cael ei gofnodi a'i ddefnyddio i gynorthwyo gyda thriniaethau. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth a dogfennau ôl-ofal a gwnaethom drafod yr arweiniad a rannwyd ar lafar â chleifion ar y cam ymgynghorol, a oedd hefyd yn cynnwys trafodaeth o'r risgiau a'r buddion.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal a chadw cofnodion cleifion unigol manwl. Er i ni weld fod effeithiau negyddol, hyd yn oed pan nad oedd effeithiau negyddol wedi'u nodi, a'r ardal a gafodd ei thrin, yn cael eu cofnodi yng nghofnodion unigol y claf, gwnaethom argymhell ar gyfer cysondeb bod y wybodaeth hon hefyd yn cael ei chofnodi yn y gofrestr driniaeth gyffredinol. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd yr ystafell driniaeth ar lawr cyntaf yr adeilad ac roedd mynediad ati drwy'r grisiau, gan olygu nad oedd yn hygyrch yn hawdd i gleifion a oedd yn defnyddio cadair olwyn neu'r rheini ag anawsterau symudedd. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai cleifion yn cael eu hysbysu o hyn ar y ffôn wrth drafod gwneud apwyntiad cychwynnol, a byddent yn argymhell gwasanaeth arall os nad oedd apwyntiad yn bosibl.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Canfuom fod gan y gwasanaeth broses ar waith ar gyfer casglu adborth cleifion ynghylch y gwasanaethau roeddent yn eu derbyn. Dywedwyd wrthym y byddai'r rheolwr cofrestredig yn ffonio sampl o gleifion bob blwyddyn i ofyn am eu hadborth am eu gofal a'u triniaeth. Gwelsom fod gan y rheolwr cofrestredig broses ar waith ar gyfer dadansoddi'r canlyniadau. Roedd cleifion hefyd yn gallu darparu adborth drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddarparu triniaeth i gleifion mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys yn ddiogel.

Roedd gan y gwasanaeth drefniadau da ar waith i gynnal safonau hylendid.

Roedd angen i'r gwasanaeth sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant diogelu oedolion.

Gwnaethom argymhell bod rhaglen ehangach o archwiliadau yn cael ei chyflwyno.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles staff sy'n gweithio yn y practis, a'r bobl sy'n ymweld.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o drefniadau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad. Gwelsom dystiolaeth fod profion dyfeisiau cludadwy yn gyfredol, i helpu i sicrhau bod offer trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwnaethom archwilio rhai o'r trefniadau diogelwch tân. Roedd labeli gwasanaethu ar y diffoddwyr tân yn dangos eu bod yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn. Roedd arwyddion ar gyfer allanfeydd tân a gwelsom fod asesiadau risg tân yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant tân ffurfiol yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod sefydlu, a bod yr holl staff wedi cael eu hyfforddi ar sut i ddefnyddio'r diffoddwyr tân pe bai tân.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth fynediad i becyn cymorth cyntaf a gwelsom fod popeth oddi mewn iddo o fewn ei ddyddiad dod i ben ac yn addas at y diben. Roedd gan y gwasanaeth fynediad i swyddog cymorth cyntaf a hyfforddwyd yn briodol pe bai angen.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Gwelsom fod yr adeilad yn weledol lân ac yn daclus. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad; roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno'n gryf fod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus.

Rhoddwyd disgrifiad manwl gan y gwasanaeth o'r trefniadau rheoli heintiau a gwelsom fod polisi rheoli heintiau ar waith. Roedd y rheolwr cofrestredig yn cynnal a chadw amserlenni glanhau er mwyn dangos cofnod o'r gwaith glanhau a wneir.

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu gwastraff clinigol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 mlwydd oed; dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw blant yn cael eu caniatáu yn yr ystafelloedd triniaeth.

Roedd gan y gwasanaeth bolisi diogelu oedolion ar waith, a oedd yn rhoi'r holl wybodaeth ac arweiniad perthnasol i staff eu defnyddio pe bai angen. Fodd bynnag, nid oedd modd i ni weld fod y staff perthnasol wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu oedolion. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant diogelu oedolion.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod yr holl weithredwyr laser wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys. Gwelsom hefyd dystysgrifau i ddangos bod yr holl weithredwyr laser a golau pwls dwys

wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth¹ yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Gwelsom fod cytundeb ar waith gyda Chynghorydd Amddiffyn rhag Laserau a bod rheolau lleol yn manylu ar weithrediad diogel y peiriannau, a oedd wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Gwelsom dystysgrifau'n dangos bod y peiriannau laser a golau pwls wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf i helpu i sicrhau eu bod yn dal i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom fod protocolau triniaeth ar waith ar gyfer y peiriannau laser a golau pwls dwys wedi'u darparu gan weithiwr meddygol proffesiynol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod gan yr ystafell driniaeth glo ar y tu mewn i'r drws, a oedd yn cael ei ddefnyddio pan oedd triniaeth yn mynd rhagddo. Gwelsom arwyddion rhybuddio ar y tu allan i'r drws hefyd i nodi bod y peiriant yn cael ei ddefnyddio. Canfuom fod trefniadau ar waith i storio'r allweddi yn ddiogel er mwyn gweithredu'r peiriannau, er mwyn helpu i atal defnydd anawdurdodedig.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a gweithredwyr golau pwls dwys/ laser. Wrth eu harchwilio, ymddengys bod y cyfarpar mewn cyflwr gweledol da. Gwelsom hefyd fod y gwasanaeth yn cynnal arolygiadau rheolaidd o'r cyfarpar diogelu llygaid er mwyn sicrhau ei fod mewn cyflwr da ac yn parhau'n ddiogel i'w ddefnyddio.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau sy'n ymwneud â'r asesiad risg amgylcheddol. Gwelsom fod y cynghorydd amddiffyn rhag laserau wedi cwblhau asesiad risg wedi'i ddiweddarau yn ddiweddar.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Canfuwyd gennym fod y gwasanaeth yn ymgymryd â nifer cyfyngedig o weithgareddau gwella ansawdd, gan gynnwys adolygu adborth cleifion a gwirio gwybodaeth o fewn cofnodion y cleifion. Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr

¹ Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys mewn modd diogel.

cofrestredig gyflwyno rhaglen ehangach o weithgareddau gwella ansawdd a chadw cofnod o'r rhain er mwyn dangos y gwaith a wneir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno rhaglen o weithgareddau gwella ansawdd a datblygu cynlluniau gweithredu o ganlyniad i unrhyw welliannau a nodir.

Rheoli cofnodion

Gwnaethom arsylwi bod darpariaeth dda ar gyfer diogelu cofnodion a data cleifion, a oedd yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo er mwyn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Canfuom fod strwythur rheoli clir a chefnogol ar waith.

Roedd gan y gwasanaeth broses ar waith i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a'u cyfathrebu i'r staff.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae'r rheolwr cofrestredig yn berchen ar Vale Laser Clinic Ltd ac mae'n cael ei gefnogi bob dydd gan dîm bach o staff, y mae un ohonynt yn weithredwr laser o dan hyfforddiant.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisïau ar waith a gwelwyd tystiolaeth iddynt i gyd gael eu hadolygu'n ddiweddar. Gwelsom fod taflen i staff lofnodi i ddangos eu bod wedi darllen a deall y polisïau, a dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn cael eu hysbysu o unrhyw newidiadau polisi a'i fod yn ofynnol iddynt ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac mewn ffordd anffurfiol. Gwnaethom argymhell y gallai'r rheolwr cofrestredig gofnodi'r cofnodion yn ffurfiol ar gyfer y rhai nad ydynt yn bresennol, a/neu er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol ar waith.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom dystiolaeth fod gan y gwasanaeth bolisi a phroses addas ar waith ar gyfer mynd i'r afael â chwynion. Er nad oedd y gwasanaeth wedi derbyn unrhyw

gwynion hyd yn hyn, disgrifiodd y rheolwr cofrestredig broses briodol ar gyfer cofnodi a rheoli unrhyw gŵyn pe baent yn derbyn un.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y weithdrefn gwyno yn cynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi cwynion i gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod yr holl weithredwyr laser wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd, gan gynnwys Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant gweithredwyr ar gyfer y peiriannau laser a golau pwls dwys.

Gwnaeth y rheolwr cofrestredig ddisgrifio rhaglen sefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau, adnabod anghenion hyfforddi, hyfforddiant a goruchwyliaeth yn ystod y swydd, i helpu i sicrhau bod y staff yn gymwys i ymgymryd â'u rolau.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn derbyn arfarniad o'u perfformiad bob blwyddyn.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig broses recriwtio priodol a oedd yn cynnwys gwiriadau cyn cyflogaeth. Gwelsom fod gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer un aelod o staff, a dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn y broses o wneud cais ar gyfer y gweithredwr laser/golau pwls dwys a oedd yn weddill.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bôn yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Vale Laser Clinic Ltd

Dyddiad yr arolygiad: 7 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau a darparu copïau i AGIC.	18. Cyfathrebu'n effeithiol	Diweddarwyd y dogfennau ar 16.04.2018	Emma Griffiths	Wedi'i gwblhau
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant diogelu oedolion.	11. Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed	Cwblhawyd y cyrsiau yn ystod wythnos 09.04.18	Emma Griffiths	Wedi'i gwblhau

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno rhaglen o weithgareddau gwella ansawdd a datblygu cynlluniau gweithredu o ganlyniad i unrhyw welliannau a nodir.	6. Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd 21. Ymchwil, datblygiad a dyfeisgarwch	Gwnaethpwyd yr adolygiad a'i weithredu yn ystod mis Mawrth ac Ebrill 2018	Emma Griffiths	Wedi'i gwblhau
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi cwynion i gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC.	23 Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau	Diweddarwyd y ddogfen ar 16.04.18	Emma Griffiths	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Emma Griffiths

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 17.04.18